



Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner

Gwella trefniadau llywodraethu a sgiliau er mwyn paratoi ar gyfer y safonau

Creu newid diwylliannol drwy roi strwythurau a phrosesau ar waith i gydnabod pwysigrwydd gwasanaethau Cymraeg

Dyddiad: Hydref 2018

Er mwyn paratoi i gydymffurfio â safonau'r Gymraeg, rhoddodd Heddlu De Cymru fesurau llywodraethu ac atebolrwydd ar waith a chyflwynodd ofynion o ran hyfforddiant a sgiliau a fyddai'n gwella gwasanaethau i siaradwyr Cymraeg.

CEFNDIR

Mae Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 5) 2016 yn amlinellu'r gofynion newydd ar gyfer heddluoedd yng Nghymru mewn perthynas â'r Gymraeg. Ar 30/09/2016, cafodd Heddlu De Cymru hysbysiad cydymffurfio a oedd yn ei gwneud yn ofynnol iddo ddechrau cydymffurfio â safonau o 30/03/2017; roedd yn gweithredu Cynllun Iaith Gymraeg tan 30/03/2017.

Bryd hynny, er bod meysydd o arfer da (yn enwedig deunyddiau ysgrifenedig a gwasanaethau mewn cymunedau lle mae mwy o bobl yn siarad Cymraeg fel iaith gyntaf), roedd yr heddlu'n teimlo nad oedd gan y sefydliad ddigon o ymwybyddiaeth o bwysigrwydd darparu gwasanaethau Cymraeg i gymunedau Cymraeg eu hiaith. Nododd hefyd nad oedd y gweithlu'n cynnwys digon o siaradwyr Cymraeg i gydymffurfio'n effeithiol â'r safonau, yn rhannol oherwydd anawsterau recriwtio, a'r ffaith bod adnoddau hyfforddi yn brin.

Roedd yr heddlu'n awyddus i sicrhau y byddai ei brosesau a'i arferion yn ei alluogi i gydymffurfio'n llawn â'r ddeddfwriaeth newydd a nododd feysydd allweddol i'w gwella.

CAMAU A GYMERWYD – LLYWODRAETHU AC ATEBOLRWYDD

Lluniwyd strwythur llywodraethu newydd er mwyn helpu i roi'r safonau ar waith a chyflawni'r newid diwylliannol yr oedd ei angen. **Sefydlwyd bwrdd tactegol** i drafod yr agweddau ymarferol ar roi'r safonau ar waith; **ategwyd hyn gan fwrdd strategol**, a oedd yn ystyried anghenion ehangach y sefydliad hefyd. Cadeirydd y Bwrdd Strategol, a oedd yn rhan o strwythur llywodraethu'r heddlu, oedd y Prif Gwnstabl Cynorthwyol newydd, a oedd yn awyddus iawn i wella gwasanaethau Cymraeg.

Roedd angen buddsoddi adnoddau er mwyn cydymffurfio, ac nid oedd modd cael yr adnoddau hyn heb dystiolaeth ddigonol. Gweithiodd y grŵp tactegol a'r bwrdd strategol i roi'r dystiolaeth ofynnol i'r Prif Swyddogion er mwyn buddsoddi adnoddau ac ymrwymo i ymwreiddio'r iaith Gymraeg ym mhob rhan o'r sefydliad.

Sefydlwyd nifer o ffrydiau gwaith i wneud y newidiadau ymarferol yr oedd eu hangen er mwyn cydymffurfio â'r safonau. Yn eu plith roedd darparu gwasanaethau, gohebiaeth, cyfarfodydd, derbynfeydd, cyfweliadau, cwynion, cyhoeddiadau, adnoddau dynol a hyfforddiant, cysylltiadau, caffael, llunio polisïau a chadw cofnodion. Arweiniwyd y ffrydiau gan arweinwyr busnes penodol, a weithiodd mewn ffordd ymgynghorol er mwyn gwneud newidiadau i arferion gwaith.

Cafodd dau bolisi newydd eu datblygu: Polisi'r Gymraeg, sy'n rhoi trosolwg o'r prosesau sydd ar waith i sicrhau cydymffurfiaeth â'r safonau; a'r Polisi Sgiliau Cymraeg, sydd wedi cael ei ddatblygu i gydnabod y Gymraeg fel sgil ochr yn ochr â sgiliau plismona eraill. Gan i'r polisïau gael eu datblygu mewn ffordd gydweithredol, ni chodwyd unrhyw faterion eraill yn ystod yr ymgynghoriad mewnol ar y polisïau.

CAMAU A GYMERWYD – GWELLA SGILIAU'R GWEITHLU

Cyflwynodd yr heddlu hyfforddiant newydd ar gyfer pob aelod o staff, sef:

- dosbarthiadau Cymraeg lefel 2, yn gyntaf i staff a oedd yn dilyn prosesau dyrchafu, ac wedyn i bob aelod o staff (gan gydymffurfio â safonau 127 a 128);
- hyfforddiant ar y Gymraeg yn y cyfryngau.

Sicrhaodd yr heddlu fod amserlen yr hyfforddiant Cymraeg yn cyd-fynd â gofynion gweithredol gan olygu nad oedd unrhyw effaith ar blismona rheng flaen.

Mae safon 134 yn hysbysiad cydymffurfio'r heddlu yn datgan bod yn rhaid iddo asesu'r angen am sgiliau yn y Gymraeg, a rhoi'r swydd mewn un o bedwar categori (fel 'Cymraeg yn hanfodol' neu 'Cymraeg yn ddymunol'). Mae'r heddlu bellach yn defnyddio matrices safonol i lunio proffil pob rôl yn y sefydliad, yn seiliedig ar natur y rôl yn ogystal â chyfansoddiad ieithyddol y gymuned leol.

Mae disgwyl i bob newydd-ddyfodiad (ac eithrio gwirfoddolwyr, contractwyr a staff asiantaeth) fod wedi cyrraedd o leiaf Lefel 1 yn y Gymraeg, sy'n un o amodau ei benodiad, a chyrraedd Lefel 2 o fewn 12 mis i'w benodi. Mae pob rôl a hysbysebwr yn fewnol yn gofyn am o leiaf Lefel 2 ac mae'n rhaid cyrraedd y lefel a nodir ym mhroffil y rôl o fewn 12 mis.

CANLYNIADAU A LLWYDDIANNAU

Mae'r heddlu'n dweud bod ei ymdrechion wedi bod yn llwyddiannus ac wedi arwain at ganlyniadau cadarnhaol, gan gynnwys:

- cynnydd yn nifer y swyddogion / staff sy'n cael hyfforddiant Cymraeg, ac adborth da gan y rhai sy'n cymryd rhan;
- gwell ymwybyddiaeth o'r Gymraeg ar draws yr heddlu;
- mwy o staff yn awyddus i gymryd rhan mewn gweithgareddau Cymraeg, fel yr Eisteddfod a hyfforddiant ar y cyfryngau;
- mwy o staff yn defnyddio Cymraeg yn y swyddfa ac mewn cymunedau;
- mwy o gyswllt â chymunedau Cymraeg eu hiaith, er enghraifft yn yr Eisteddfod Genedlaethol a thrwy'r cyfryngau cymdeithasol.

PA ELFENNAU Y GELLIR EU TROSGLWYDDO I SEFYDLIADAU ERAILL?

Mae'r heddlu'n teimlo y gallai sefydliadau eraill sy'n paratoi i gydymffurfio â safonau'r Gymraeg gael budd o'r canlynol:

- addasu strwythurau llywodraethu a neilltuo a dirprwyo cyfrifoldebau er mwyn sicrhau eu bod yn barod i gydymffurfio, gydag arweinyddiaeth o'r brig;
- defnyddio matrices safonol i asesu gofynion swyddi gwag o ran y Gymraeg, a sefydlu gofynion sylfaenol ar gyfer pob aelod o staff;
- cydnabod pwysigrwydd gwasanaethau Cymraeg i gymunedau Cymraeg eu hiaith a mynd ati i wella gwasanaethau yn unol â hynny.

Manylion cyswllt

Enw: Andrea Self

Sefydliad: Heddlu De Cymru

E-bost: andrea.self@south-wales.pnn.police.uk

BARN Y COMISIYNYDD

Mae gwneud gwaith paratoi effeithiol ymlaen llaw yn hanfodol er mwyn sicrhau bod sefydliadau'n barod i gydymffurfio â safonau'r Gymraeg o'r diwrnod gosod ymlaen. Fel rhan o'r gwaith paratoi hwn, aeth Heddlu De Cymru ati i gynnal dadansoddiad gonest o'i gryfderau a'i wendidau ar y pryd. Yna, aeth ati i wneud newidiadau mewn meysydd allweddol.

Mae ei ffocws ar lywodraethu yn tanlinellu'r ffaith ei bod hi'n bwysig sicrhau bod sefydliad wedi ymrwymo i gynllun a bod strwythurau priodol ar waith o ran atebolrwydd

a chyfrifoldebau. Aeth ati i wella ei ddarpariaeth Gymraeg gan sicrhau bod y newidiadau'n cyd-fynd â phrosesau ac arferion cyfredol y sefydliad.

Mae ei ffocws ar sgiliau'r gweithlu yn dangos mai adnodd pwysicaf sefydliad yw ei bobl, gan eu bod yn gallu gwneud gwahaniaeth mawr i brofiadau pobl. Mae dynodi bod Cymraeg sylfaenol yn hanfodol ar gyfer pob aelod o staff yn gam cadarnhaol, sy'n ffordd effeithiol o godi ymwybyddiaeth o fewn yr heddlu o bwysigrwydd gwasanaethau Cymraeg, ynghyd â rhoi sicrwydd i'r cyhoedd bod y sefydliad wedi ymrwymo i'r Gymraeg. Mae cynnwys gwella sgiliau Cymraeg fel rhan o'r broses ddyrchafu yn ffordd glyfar o gymell swyddogion i gamu ymlaen i'r lefel nesaf.